**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TROETFFORDD SY’N ARWAIN AT COT FARM GARDENS, RINGLAND CENTRE, CASNEWYDD) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”) i awdurdodi cau’r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau’r briffordd, ac nid awdurdodir ei chau ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â’r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Dinas Casnewydd ar 3 Hydref 2019 o dan y cyfeirnod 18/1181 a’r gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl a roddwyd ar 19 Ionawr 2022 o dan y cyfeirnod 19/1272 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Troetffordd sy’n Arwain at Cot Farm Gardens, Ringland Centre, Casnewydd) 2023 (“y Gorchymyn”) yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o’r Gorchymyn a’r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09:00 ac 16:00 yn Hyb Cymdogaeth y Dwyrain - Canolfan Gymunedol Ringland, 282 Ringland Circle, Casnewydd, NP19 9PS, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA1617855.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 31 Gorffennaf 2023, wneud cais i’r Uchel Lys at y diben hwnnw.

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (FOOTWAY LEADING TO COT FARM GARDENS, RINGLAND CENTE, NEWPORT) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 (“the 1990 Act”) to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with outline planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Newport City Council on 3 October 2019 with reference number 18/1181 and the approval of reserved matters granted on 19 January 2022 with reference number 19/1272 described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Footway Leading to Cot Farm Gardens, Ringland Centre, Newport) Order 2023 (“the Order”) ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge from Monday to Friday between 09:00 and 16:00 at the East Neighbourhood Hub - Ringland Community Centre, 282 Ringland Circle, Newport, NP19 9PS, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1617855.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 31 July 2023 make an application for the purpose to the High Court.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o droetffordd sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Cot Farm Gardens ar ochr orllewinol Cot Farm Circle ac i'r gogledd-ddwyrain o siop Costcutter Ringland Centre, sy'n 39.5 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2.5 metr yn y man lletaf, fel a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd

**ATODLEN 2**
**Y Datblygiad**

Dymchwel Ringland Centre, 6 byngalo a llyfrgell ac adeiladu tua 170 o gartrefi a 1700 o fetrau sgwâr o arwynebedd llawr a1/a2/a3, yn ogystal â gwaith tirlunio, rhwydwaith ffyrdd mewnol, mannau parcio ceir a seilwaith cysylltiedig.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**
**Length of highway to be stopped up**

An irregular length of footway leading to the properties know as Cot Farm Gardens located on the west side of Cot Farm Circle and northeast of the Ringland Centre Costcutter Store, having a maximum length of 39.5 metres, and a maximum width of 2.5 metres, as shown by zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**The Development**

Demolition of Ringland Centre, 6 bungalows and library and construction of approximately 170 homes and 1700 square metres of a1/a2/a3 floorspace, landscaping, internal road network, car parking and associated infrastructure.